Cawl tatws a chennin

Cynhwysion

25 gram o fenyn

1 nionyn

200 gram o datws

2 genhinen

1 litr o stoc

twb bach 150ml o hufen

pupur a halen

persli i weini

Dull

1. Golchwch y llysiau'n dda gan hollti'r cennin i lawr y canol.
2. Tynnwch groen y nionyn a'i dorri'n fân.
3. Tynnwch groen y tatws a'u torri'n giwbiau.
4. Torrwch y cennin yn ddarnau.
5. Ffriwch y llysiau'n ysgafn yn y menyn.
6. Ychwanegwch y stoc, y pupur a'r halen a berwi'r cyfan nes bydd y llysiau'n feddal.
7. Stwnshiwch y cawl.
8. Ychwanegwch yr hufen a'i gymysgu'n ofalus.
9. Rhowch y cawl mewn powlenni a rhowch fymryn o bersli ar ei wyneb.

Dathlwch Ddydd Gŵyl Dewi mewn steil!